Maniffesto Llywodraeth Leol 2017

Mae gwasanaethau llywodraeth leol cryf wrth galon cymunedau iach.

Nid yw buddsoddi mewn gwasanaethau Llywodraeth Leol yn fater o ddewis. Maent yn rhan annatod o iechyd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein cymunedau yng Nghymru, ac ni ddylid cwtogi arnynt.

Mae gwasanaethau Llywodraeth Leol yn ataliol ac yn gefnogol wrth natur. Maent yn helpu i gadw pobl mewn iechyd da. Maent yn sicrhau bod ein strydoedd yn lân. Maent yn darparu gofal am eich cymydog oedrannus sydd am fyw'n annibynnol. Maent yn sicrhau bod gan gymunedau fynediad i lyfrau a pharciau, ac yn darparu pobl ifanc â chanolfannau ieuenctid.

Mae'r gwasanaethau hyn, ac eraill, yn arfau hanfodol yn ein brwydr yn erbyn anghydraddoldeb, tlodi ac iechyd gwael.

Rydym i gyd yn disgwyl gwasanaethau lleol atebol ac o ansawdd da. Ond nid yw'r sefyllfa ariannol erioed wedi edrych mor ddigalon.

Mae Cynghorau Cymru dan bwysedd aruthrol yn sgil agenda lymder Lywodraeth y DU, ond mae penderfyniadau a wneir nawr yn mynd i effeithio arnom am genedlaethau i ddod.

Mae Llywodraeth Leol yn wynebu argyfwng. Mae'n hanfodol bwysig fod gennym Gynghorwyr etholedig sy'n gwrthwynebu toriadau ac sydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da.

Rydym yn galw arnoch chi i gefnogi ac arwyddo maniffesto Llywodraeth Leol UNSAIN Cymru.

Cyllido Teg

Mae UNSAIN yn gwbl ymwybodol bod cyllido teg ar gyfer llywodraeth leol yn parhau i fod yn fater o bwys. Mae mudiad yr undebau llafur yn parhau i ymgyrchu dros roi terfyn ar raglen lymder Llywodraeth y DU, yn ogystal â sicrhau mecanwaith cyllido teg i Gymru. Rydym hefyd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu nifer o strategaethau fydd yn helpu i leihau'r pwysedd ar Lywodraeth Leol, fel y gwelir mewn Archwiliad o Lymder a gynhaliom yn 2016.

Serch hynny, mae angen i Awdurdodau Lleol sicrhau eu bod yn cynnig gwasanaethau cystadleuol ac yn chwilio am fwy o gyfleoedd ar gyfer creu incwm drwy'r gwasanaethau maent yn eu darparu.

Yn ogystal â hyn, cred UNSAIN bod treth y cyngor graddedig nid yn unig yn fwy teg, ond y byddai'n creu incwm ychwanegol ar gyfer gwasanaethau lleol.

Cyflenwyr Allanol

Mae gan UNSAIN safiad eglur ar ddarpariaeth drwy gontract allanol. Os yw gwasanaethau mewn trafferth, dylid cychwyn cynlluniau gwella mewnol gan roi blaenoriaeth i ansawdd y gwasanaeth a'r defnyddwyr, nid cymhelliad i greu elw. Nid yw trosglwyddo gwasanaeth i'r sector preifat neu'r trydydd sector yn golygu bod cyfrifoldeb cyffredinol dros y gwasanaeth hwnnw hefyd yn cael ei drosglwyddo. Lle mae gwasanaethau eisoes yn cael eu rhedeg gan sefydliadau allanol, rydym yn galw am broses gaffael foesegol sy'n sicrhau bod staff yn derbyn Cyflog Byw a'u bod yn gweithio dan delerau ac amodau wedi'u cyd-drafod drwy undeb llafur cydnabyddedig.

Ni ddylai arbedion effeithlonrwydd fod ar draul y gweithlu nac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Gweithlu Llywodraeth Leol

Ni all gwasanaethau cyhoeddus ond fod cystal â'r gweithwyr sy'n eu darparu. Mae gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus yn haeddu tâl ac amodau gwaith teg, ond yn hytrach maent yn wynebu cyfyngiadau hir-dymor ar eu cyflog, ac mae llawer sy'n gweithio mewn gwasanaethau dan gontract allanol yn dioddef yn sgil cyflog isel ac amodau gwaith gwael.

Mae diogelwch swyddi'n parhau i fod yn fater o bryder. Mae 24,000 yn llai o bobl yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol yng Nghymru o gymharu â 2010. Gyda mwy o doriadau ar y gweill, mae llawer o weithwyr yn teimlo eu bod mewn peryg. Gyda'r galw ar wasanaethau'n tyfu a mwy o bwysedd ar adnoddau, mae pobl yn gweithio'n galetaf nag erioed o'r blaen, felly mae straen yn y gweithle yn fater cynyddol sydd angen ei ddatrys.

Mae gweithwyr Llywodraeth Leol yn haeddu cael eu talu o leiaf ar raddfa'r Sefydliad Cyflog Byw, sef **£8.45 yr awr** ac **rydym yn galw ar lywodraethau lleol i fod yn gyflogwyr achrededig gan y Sefydliad Cyflog Byw.**

Mae UNSAIN hefyd yn **galw am gyfyngu'n llym ar y defnydd o gytundebau heb sicrwydd isafswm oriau a staff asiantaethau.** Rhaid i hyn fod yn berthnasol i'r rheiny a gyflogir yn uniongyrchol gan y cyngor ac o fewn gwasanaethau a drefnir drwy gontract allanol.

Mae gweithlu cynaliadwy, sydd â chymhelliant da ac sydd wedi ymrwymo i'w swyddi, angen buddsoddiad. **Rhaid i Awdurdodau Lleol hyrwyddo datblygiad y gweithlu a chreu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant**.

Gofal Cymdeithasol

Mae marchnadoli gofal cymdeithasol wedi methu. Rhaid gwrthwynebu unrhyw gamau pellach i drefnu gofal cymdeithasol drwy gontract allanol. Mae angen i wasanaethau gofal gael eu darparu gan yr awdurdod lleol. Lle mae trefniadau drwy gontract allanol eisoes mewn lle, rydym yn annog Awdurdodau Lleol i gymryd yn awenau'n ôl cynted â phosib.

Mae cydnabyddiaeth gyffredinol bod llawer o wasanaethau gofal cymdeithasol yn wynebu argyfwng, a gyda phoblogaeth Cymru'n heneiddio, mae'r galw ar wasanaethau'n sicr o gynyddu yn y dyfodol. Gan gadw hyn mewn cof, mae'n hanfodol bod gwasanaethau'n cael eu cyllido a'u staffio mewn modd cynaliadwy.

Mae UNSAIN yn galw ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i arwyddo ein Siarter Gofal Moesegol. Mae'r Siarter yn gosod anghenion defnyddwyr gofal, urddas cleientiaid a buddsoddiad yn y gweithlu gofal uwchlaw ystyriaethau gwneud elw. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun gofal yn y cartref, sy'n cael ei drefnu'n gynyddol drwy gontract allanol.

Tai

Yn sgil cyflwyno'r Dreth ar Ystafelloedd Gwely, mae tai fforddiadwy a phriodol, o ansawdd da, yn brin. Dylai pob Awdurdod Lleol fod â stoc o dai. **Mae UNSAIN yn galw ar Awdurdodau Lleol i adeiladu miloedd o dai cyngor newydd i gwrdd â'r galw am gartrefi, fydd yn helpu i greu swyddi a rhoi hwb i'r economi.**

Llyfrgelloedd a Hamdden

Mae swyddogaethau anstatudol awdurdodau lleol, megis llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden, yn allweddol i iechyd cymunedau yng Nghymru. Unwaith y caiff gwasanaethau fel y rhain eu colli, ni chânt fyth eu hadfer. Mae'n hanfodol **bod llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden yn parhau i gael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol a'u bod yn cael eu staffio gan weithlu a gyflogir yn uniongyrchol gan yr awdurdod.**

Ffoaduriaid

Mae ymateb gofalgar a thosturiol i'r argyfwng ffoaduriaid yn golygu bod angen i Gymru dderbyn mwy o geiswyr lloches. **Dylai pob awdurdod lleol geisio cyngor i benodi o leiaf un cydlynydd ffoaduriaid;** Rôl y rhain fyddai mynd i'r afael â'r canlynol: troseddau casineb; tensiynau cymunedol; ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mewnfudo; y fasnach mewn pobl; gwrthdlod; cenedlaethau'r dyfodol a chydlyniad; cymunedau teithwyr sy'n sipsiwn.

Rhaid i awdurdodau lleol gyfranogi mewn rhaglenni ailsefydlu a chyflwyno rhaglenni integreiddio i'w cymunedau.

Addysg

Mae llwyddiant ysgolion yn ddibynnol ar holl weithlu'r ysgol, felly dylai staff ategol mewn ysgolion gael yr un amodau gwaith ag athrawon - cyflog llawn am 52 wythnos y flwyddyn, yn hytrach na'r cytundebau tymor-yn-unig sy'n bodoli ar gyfer y rhan fwyaf o staff ategol mewn ysgolion.

Mae Cynorthwywyr Dysgu (CD) yn cyflawni rôl hanfodol mewn ysgolion, ond maent angen hyfforddiant a chymorth parhaus i allu gwneud hyn. Ni chynigir datblygiad proffesiynol i lawer ohonynt, ac nid oes cymorth yn y gweithle na chyfleoedd gyrfa ar gael iddynt.

Dylid defnyddio CD yn gywir a chydnabod eu cyfraniad. Mae'n annerbyniol i CD weithio tu allan i'w disgrifiad swydd, ar lefel uwch, heb gydnabyddiaeth ariannol, ond dyna yw'r sefyllfa yn rhy aml.

Mae UNSAIN o blaid cofrestru proffesiynol ar gyfer CD, ond fel aelodau o'r gweithlu sydd ar gyflog isel, ni ddylid bod disgwyl iddynt dalu am gael eu cofrestru. **Rydym yn galw ar awdurdodau lleol i dalu costau cofrestru eu staff â'r Cyngor Gweithlu Addysg.**

Y Defnydd o Ymgynghorwyr

Mae gwario arian cyhoeddus ar ymgynghorwyr preifat yn warthus.

Rydym yn galw ar gynghorau a darpar gynghorwyr i addo peidio defnyddio ymgynghorwyr preifat i'w cynghori ar sut i wneud toriadau mewn gwasanaethau a swyddi. Gellir cyflawni'r arbedion effeithlonrwydd gorau pan gynhelir ymgynghoriadau â'r gweithlu ac nid contractwyr preifat.

Pan fo angen cyngor a chymorth allanol, dylai cynghorau geisio defnyddio APSE – mudiad nid er elw sy'n seiliedig ar hyrwyddo rhagoriaeth gwasanaethau'r rheng flaen**. Ni ddylid byth gwario arian trethdalwyr ar gyflogi ymgynghorwyr preifat i gynghori ar doriadau mewn gwasanaethau.**

Blaenoriaethau UNSAIN

Er ein bod ni am i chi fel darpar gynghorydd weithio gyda ni i gyflawni cymaint o'r maniffesto hwn â phosib, credwn ei bod yn hanfodol bwysig i chi ymrwymo i o leiaf y tri amcan UNSAIN canlynol:

- **Gwrthod unrhyw drefniadau sy'n cynnwys cyflenwyr allanol**
- **Talu cyflog ar raddfa'r Sefydliad Cyflog Byw i bob aelod staff sy'n darparu gwasanaethau llywodraeth leol**
- **Peidio byth gwario arian trethdalwyr ar gyflogi ymgynghorwyr preifat i gynghori ar doriadau mewn gwasanaethau.**

Wedi'i gyhoeddi a'i brintio gan UNSAIN Cymru, Ty UNSAIN, Heol Y Tollty, Caerdydd CF10 1AP